

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru

Interpret Wales

Hydref Autumn
2011 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

16

Yn y rhifyn hwn In this issue

Gweithio i
Greu Chwarae
Working at Play

Darllenwch y label
Read the Label

Ai 'gameiddio' yw
dyfodol dehongli?
**Is 'gamification'
the future of
interpretation?**

Codenni Cyffwrdd
Touch Pods



DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES

Rhifyn 16 Hydref 2011

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.

Cynnwys

- 4-5 **Ai 'gemeiddio' yw dyfodol dehongli?**
Paul Davies
- 8 **Codenni Cyffwrdd**
Ticky Lowe
- 10-11 **Gweithio i Greu Chwarae**
Ceri Black
- 14 **Chwarae am bum mlynedd ar hugain**
Techniquet
- 16-17 **'Darllenwch y label, os oes un i'w gael.'**
Stuart Evans
- 20 **Amgyffred yr 'app' – adolygiad o ddigwyddiad haf Dehongli Cymru**

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
ffôn: 01600 860779

Llun y clawr: Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, defnyddir gweithgareddau creadigol i ddehongli'r casgliadau celf.

De uchaf: Tim Pugh

Chwarae o gwmpas

Beth sydd gan y rhan fwyaf o Lawryfogion Nobel, entrepreneuriaid arloesol, artistiaid a pherfformwyr, plant bodlon eu byd, cariadon hapus a theuluoedd yn gyffredin? Maent yn chwarae'n frwdfrydig drwy gydol eu bywydau. Dyna mae Stuart Brown, o'r Sefydliad Chwarae yn ei ddweud. Ond pryd wnaethoch chi chwarae ddiwethaf? Mae llawer ohonom yn rhoi'r gorau i chwarae wrth i ni dyfu i fyny, ond os byddwch yn darllen y llenyddiaeth, fe welwch fod chwarae yr un mor bwysig â chael digon o gws, bwyta'n dda ac ymarfer corff. Mae'n cyfrannu at ein hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'n ein helpu i oroesi drwy ein cysylltu ag eraill. Mae'n ein helpu i ganfod cyffro ynom ni ein hunain. Mae'n ysgogi'r ymennydd. Ac rydym yn ei wneud er ei fwyn ei hun ac nid am unrhyw wobwr allanol - sy'n golygu ei bod yn ffordd wych o annog pobl i fynd ati i ddehongli.

Felly faint ohonom sy'n defnyddio chwarae yn ein pecyn offer deongliadol? Yn y rhifyn hwn, edrychwn ar ychydig o ddehongli 'chwaraeus' - o labelu chwaraeus mewn amgylchedd amgueddfa, i fyd gemau cyfrifiadurol a rhaglenni ffonau symudol.

Os byddwn yn osgoi cyfryngau digidol a chymdeithasol, rydym yn colli cynulleidfaoedd newydd enfawr sy'n creu, rhannu a beirniadu cynnwys yn gyson sy'n eu hysbrydoli, neu'n eu pryfocio. Mae'r cynulleidfaoedd hyn yn chwarae gyda

chynnwys ac yn gweithredu fel curaduron gan ei gymysgu a'i addasu. Maent am ymgysylltu â chynnwys **sy'n eu dilyn i ble bynnag y byddant yn mynd.**

Dyna pam mae rhaglenni ffonau symudol yn un o'r dewisiadau y mae dehonglwyr yn eu dewis fwyfwy. Mae Paul Davies o Imagemakers yn cynnig cipolwg ar y seicoleg sydd y tu ôl i chwarae a sut mae hyn wedi'i roi ar waith i greu rhaglenni ffôn mewn amrywiaeth o leoliadau.

Caiff gemau eu defnyddio'n helaeth gan athrawon gan eu bod yn creu angen i wybod, angen i ofyn ac angen i feistrolï sgiliau penodol. Mae'r hen Techniquet yn caniatáu i'w ymwelwyr chwarae ers chwarter canrif. Erbyn hyn, mae gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ddiddordeb mewn rôl chwarae fwyfwy, fel y dywed Ceri Black.

Gallai fod yn ystrydeb, ond cawsom ein geni i chwarae. Mae'r reddf i chwarae ym mhob un ohonom, waeth beth fo'n galluoedd corfforol neu feddyliol. Mae prosiect Ticky Lowe yn ddiweddar gyda Mencap, Lerpwl sef - *Codenni Cyffwrdd* - yn datgelu sut y gwnaeth hyd yn oed bobl ag anableddau difrifol, drwy chwarae gyda'u synhwyrau, fwynhau'r darn hwn o ddehongli amsynhwyraidd.

Felly beth am gael ychydig o hwyl gyda'ch labeli a dod ag ychydig o chwaraeusrwydd i'ch prosiectau!

Ruth Waycott
Golygydd

Playing around

What do most Nobel Laureates, innovative entrepreneurs, artists and performers, well-adjusted children, happy couples and families have in common? They play enthusiastically throughout their lives. So says Stuart Brown, of the Institute of Play. But when did you last play? Many of us stop playing as we grow up, but if you read the literature you'll find that play is just as important as getting enough sleep, eating properly and exercising. It contributes to our physical and mental health. It helps us survive by connecting us to others. It helps us find excitement within ourselves. It provides stimulation for the brain. And it's done for its own sake and not for any external reward - making it a brilliant way of getting people to engage with interpretation.

So how many of us use play in our interpretive toolkit? In this issue we look at some 'playful' interpretation - from playful labelling in a museum environment, to the world of computer gaming and mobile phone apps.

If we avoid digital and social media we are excluding huge new audiences that constantly create, share, comment and criticize content that inspires, or provokes, them. These audiences play with content and act as curators mixing and modifying it. They want

to engage with content **that follows them wherever they go.** That's why mobile phone apps are increasingly one of the options interpreters choose. Paul Davies from Imagemakers provides an insight into the psychology behind play and how this has been applied to create phone apps in a variety of settings.

Games are widely used by teachers because they create a need to know, a need to ask, and a need to master particular skills. Old hand Techniquet has been letting its visitors play for a quarter of a century. Now the National Museum Wales is increasingly interested in the role of play, as Ceri Black reports.

It might be a cliché, but we are born to play. The instinct to play is in us all, no matter what our physical or mental abilities. Ticky Lowe's recent project with mencap Liverpool - *Touch Pods* - reveals how by playing with their senses even people with profound disabilities enjoyed this piece of multisensory interpretation.

So why not have a little fun with your labels and prescribe some playfulness for your projects!

Ruth Waycott
Editor

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU

Issue 16 Autumn 2011

Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the agencies whose logos appear below.

Contents

- 6-7 **Is 'gamification' the future of interpretation?**
Paul Davies
- 9 **Touch Pods**
Ticky Lowe
- 12-13 **Working at Play**
Ceri Black
- 15 **Playing for 25 years - celebrating Techniquet's quarter century**
Techniquet
- 18-19 **Read the Label**
Stuart Evans
- 20 **Knowing your apps from your elbow - a review of our recent event**

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
tel: 01600 860779

Front cover image: At National Museum Cardiff, creative activities are used to interpret the art collections.

Top right: Tim Pugh



ai 'gemeiddio' yw dyfodol dehongli?

Mae'r gwasanaeth lleoli cymdeithasol, Foursquare, yn defnyddio dynameg gêm i annog pobl i nodi eu hymwelid â lleoliadau. (Llun Foursquare)

Social location service, Foursquare, uses game dynamics to get people to check-in to venues. (Image Foursquare)

Os nad ydych yn rhywun sy'n chwarae gemau cyfrifiadurol yn rheolaidd, mae'n bosibl y bydd y ffaith bod 10 miliwn o bobl yn y DU yn treulio o leiaf 20 awr yr wythnos yn chwarae gemau ar-lein yn sioc i chi. Yn fwy o syndod fyth yw y bydd yr unigolyn ifanc cyfartalog yn treulio 10,000 awr yn chwarae gemau cyfrifiadurol cyn troi'n 21 oed (Adroddiad NPD, 2008). Mae **Paul Davies** yn ystyried sut y gellir defnyddio'r tueddiadau hyn fel offeryn i gynorthwyo dehongli.



Gemeiddio tywyslyfr dinas hanesyddol gyda rhaglen newydd Edinburgh World Heritage. (Llun Edinburgh World Heritage)

Gamifying a historical city guide with the new Edinburgh World Heritage App. (Image Edinburgh World Heritage)

Casglu: Rhan o ymddygiad dynol yw ein bod yn hoffi casglu unedau neu ychwanegu neu gwblhau set. Bydd ymgorffori'r cyfle i gasglu eitemau'n annog pobl i barhau â'r gweithgaredd ac ymestyn eu profiad ymhellach.

Statws: Rydym yn hoffi gwybod ein safle mewn perthynas ag eraill. Gadewch i bobl wybod sut hwyl maent yn ei chael yn erbyn eraill – naill ai'n uniongyrchol o'u cwmpas, neu bawb sydd wedi cyflawni'r un her erioed.

Mae gemau wedi bodoli ers canrifoedd ac rydym wedi bod yn defnyddio gemau techneg isel ym maes dehongli am flynyddoedd, felly pam y diddordeb newydd ynddynt? Yn gyntaf, rydym mewn sefyllfa erbyn hyn lle bo gennym ddigonedd o ddyfeisiau symudol digidol (e.e. ffonau Smart); ac yn ail, nid yw'r fframwaith o rwydweithiau cymdeithasol sy'n caniatáu i bobl gysylltu â'i gilydd wedi bodoli cyn hyn. Mae gwasanaethau megis Foursquare a SCVNGR yn arwain y ffordd o ran creu profiadau 'gemeiddio' sy'n gymdeithasol gysylltiedig ond gallwn ddysgu ganddynt erbyn hyn o ran creu offer dehongli digidol cost effeithiol am gost resymol.

Yn Imagemakers, gwnaethom ddechrau gyda'r uchelgais o greu fersiwn 2.1ain ganrif gyfatebol o'r hen gêm 'Mi wela'i, â'm llygad bach i.' Mae cyfres WildSpy rhaglenni iPhone yn caniatáu i deuluoedd weld nodweddion yn yr amgylchedd ac ateb cwestiynau i'w hateb gyda'i gilydd. Mae llwyddiant WildSpy wedi'n harwain at greu

Paul Davies

Mae Paul yn seicolegydd, dylunydd a thechnolegydd ac yn Rheolwr Cyfryngau Digidol yn Imagemakers Design and Consulting.

e-bost. paul@imagemakers.uk.com
Dilynwch ni ar Twitter: @imagemakers_uk

prosiectau 'gemeiddio' ar gyfer cleientiaid eraill ac rydym erbyn hyn yn ystyried sut y gall cyfarpar symudol esblygu i ddot yn fwy na dull darparu ffeithiau – wedi'r cwbl, datganodd Tilden y dylai dehongli ddatgelu ystyr a chydberthnasau, nid yn unig cyfleu gwybodaeth ffeithiol.

Credaf y gall edrych ar y sector gemau cyfrifiadurol addysgu gwersi gwerthfawr i ni o ran creu profiadau gwerthfawr a phlesurus i ymwelwyr. Er nad yw gemeiddio at ddant pawb, o'i gyfuno â thechnegau eraill, gall helpu i ymgysylltu â chynulleidfa oedd sy'n cael anawsterau gyda mathau mwy traddodiadol o gyfryngau.


Mae myfyrwyr yn mwynhau cymryd rhan mewn helpa drysor symudol gyda'r rhaglen Discover Wildspace gan Imagemakers (Image Cyngor Bwrdeistref Havering)

Students enjoy taking part in a mobile treasure hunt with the Discover Wildspace App from Imagemakers.



Yn hytrach na bod yn negyddol, mae'r ystadegau hyn yn dangos bod y diwydiant gemau'n gwneud rhywbeth yn iawn wrth geisio ymgysylltu â phobl. Mae 'gemeiddio' yn cyfeirio at seicoleg pam mae pobl yn cael eu difyrru wrth chwarae gemau a sut y gellir defnyddio'r technegau hyn i roi profiad mwy gwerthfawr i bobl. Nid yw gemeiddio'n golygu creu gemau cyfrifiadurol yn yr ystyr traddodiadol. Nid wyf yn awgrymu bod pob prosiect dehongli'n creu ei Sonic the Hedgehog, Lara Croft neu World of Warcraft ei hun. Yn hytrach na hynny, edrychwch ar sut y gellir 'gemeiddio' eich cynnwys drwy roi technegau a ddefnyddir yn y gemau hyn ar waith. Mae dylunwyr gemau cyfrifiadurol yn seicolegwyr ardderchog. Maent yn gwybod sut i danio dychymyg pobl a'u difyrru i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwneud iddynt ddychwelyd dro ar ôl tro a gallwn ddysgu o'r gemau hyn i gynyddu dysgu, cyfranogiad ac ymgysylltiad.

Dyma gwpl o enghreifftiau o dechnegau cymhelliannol a ddefnyddir mewn gemau cyfrifiadurol:



is 'gamification' the future of interpretation



Rhaglen iPhone WildSpy yw ateb yr 21ain ganrif i "Mi welaf i, a'm llygad bach i".

The WildSpy iPhone App is the 21st Century answer to I Spy.

If you're not someone who regularly plays computer games the fact that 10 million people in the UK spend at least 20 hours per week playing online games may shock you. Even more amazing is that the average young person will spend 10,000 hours playing computer games before they are 21 (NPD Report, 2008). **Paul Davies** explores how these trends can be used as a tool to aid interpretation.

Far from being negative these statistics show that the gaming industry is doing something right in trying to engage people. 'Gamification' refers to the psychology of why people get engaged with playing games and how these techniques can be used to give people a more rewarding experience. Gamification doesn't mean creating computer games in the traditional sense. I am not advocating that every interpretation project creates its own Sonic the Hedgehog, Lara Croft or World of Warcraft. Instead look at how your content can be 'gamified' by applying techniques used within these games. Computer game designers are excellent psychologists, they know how to capture people's interest and engage

them in activities that makes them want to come back repeatedly and we can learn from these games to increase learning, participation and engagement.

Here are a couple of examples of motivational techniques used in computer games:

Collecting: Part of human behaviour is that we like to collect units to add or complete a set. Incorporating the opportunity to collect items will encourage people to continue the activity and extend their experience further.

Status: We like to know our standing relative to others. Let people see how they are doing against others - either directly around them, or everyone who has ever undertaken the same challenge.



Mae SCVNGR yn rhaglen symudol sy'n creu heriau i bobl eu cyflawni mewn lleoliadau penodol. (Image SCVNGR).

SCVNGR is a mobile application that creates challenges for people to undertake when in certain locations. (Image SCVNGR).

Games have been around for centuries, and we have been using low-tech games in interpretation for years so why the new interest in them? Firstly, we are now in a position where we have the proliferation of digital mobile devices (e.g. smartphones); and secondly, never before has there been the framework of social networks that let people connect with each other. Services such as Foursquare and SCVNGR are taking the lead in creating socially connected 'gamified' experiences but we can now learn from them to create effective digital interpretation tools at a reasonable cost.

At Imagemakers we started with the ambition of creating the 21st century equivalent of the old 'I Spy' game. The WildSpy series of iPhone Apps allow

families to spot features in the environment and answer questions to complete with one another. The success of WildSpy has led us onto creating 'gamified' projects for other clients and we are now looking at how mobile guides can evolve to become more than a fact giving platform - after all Tilden originally stated that interpretation should reveal meaning and relationships, not simply communicate factual information.

I believe that looking at the computer gaming sector can teach us valuable lessons in creating rewarding and pleasurable experiences for visitors. Whilst gamification may not be everyone's cup of tea, when it is combined with other techniques it can help to engage with audiences who struggle with more traditional types of media.

Paul Davies

Paul is a psychologist, designer and technologist and Digital Media Manager at Imagemakers Design and Consulting.

e. paul@imagemakers.uk.com
Follow on Twitter: @imagemakers_uk

Codenni cyffwrdd

Bwriad *Codenni Cyffwrdd* oedd sicrchau bod byd microsgopig ond anhygoel hadau blodau gwylltion yn agored i gynulleidfa eang, gan gynnwys pobl ag anawsterau dysgu. Dyma'r prif artist **Ticky Lowe** yn cyflwyno profiad amlsynhwyrdd sy'n llawn o wrthgyferbyniad, gwead, arogla, sŵn, cyffwrdd a lliw.

Cawsom weithdai ymgynghori gyda phobl ifanc ac oedolion ag anawsterau dysgu. Roeddem ni am ganfod beth oedd yna am hadau blodau gwylltion, o'u gweld yn agos, a fyddai yn eu cyfareddu gymaint ag y mae'n cyfareddu'r gwyddonwyr! Rydym wedi dyfeisio darn newydd a chyffrous iawn o ddehongli amlsynhwyrdd, ar gyfer y Ganolfan Blodau Gwyllt Genedlaethol yn Lerpwl, sy'n llawn o ddarganfod a chwarae.

Dechreuodd y gweithdai gyda sesiynau yn defnyddio microsgop digidol. Wedi cysylltu hwn â sgrîn taflunydd gwnaethom y delweddau wedi eu chwyddo o hadau mor fawr a chlir â phosibl i'r rhai oedd yno eu gweld. Gyda disgrifio clywedol a chymorth casgliad cynyddol o wrthrychau i afael ynddynt wedi'u dewis ar hap, oedd â gwadau tebyg i'r rhai a geir ar hadau, roeddem yn adeiladu syniad o'r hyn roedd angen i'r dehongli hadau fod. Sbardunodd y sesiynau hyn sgysiau am beth yr oedd y gwadau yn ein hatgoffa ni ohonynt. Roeddent yn cyffroi pobl, yn eu gwneud yn frwdfrydig ac yn sgwrslyd. Roeddent yn tynnu pobl o'u cragen – er syndod o gofio mai dim ond casgliad o wrthrychau ar hap oedd yna, pupryn melyn, pen mop glân, cragen, pêl rwber bigog! Felly roeddem yn gwybod bod casgliad i afael ynddo ar ei ben ei hun yn effeithiol heb unrhyw ymyrryd gan yr artist.

Archwiliwyd gwad drwy ddewis o ddeunyddiau gan gynnwys gwneud sŵn drwy gyffwrdd ag amryw o wrthrychau, a hwnnw'n cael ei fwyhau gyda microffon a'i recordio i'w ddefnyddio wedyn. Roedd pobl ag anawsterau dwys yn mwynhau'r gwadau gyda'r mwyaf o wrthgyferbyniad – byddai pethau fflyfflyd, pigog, oer, oer a llaith, rwber, cynnes a meddal ar eu crwyn yn codi gwên. Roedd pawb yn hoffi pethau y gellid chwarae â hwy, yn gwisgo wig neu rywbeth ar y llaw



fel pyped. Roedd gan un o'r artistiaid, Naomi, gês dillad mawr coch yr oedd hi'n cario ei deunyddiau ynddo. Roedd y synnwyr o gyffro wrth archwilio'r cês dillad a dod o hyd i ddeunyddiau i'w defnyddio i wneud rhywbeth newydd yn rhywbeth y bu inni ddal arno er mwyn ei ddefnyddio yn y dehongli.

Gwnaethom y dewis o adeiladu tair prif goden, un ar gyfer pob gwad – craterau, gwrymiau a fflyfflyd – a chysylltu pob gwad gydag arogla cydgyssylltiedig: craterau gyda diliau mêl, gwrymiau gyda lafant, fflyfflyd gyda chyflyrydd ffabrig. Mae pob coden hefyd yn llestr sy'n cynnwys casgliad o wrthrychau i'w trin â'r dwylo y gellir chwarae â hwy – eu stacio, eu gwisgo, eu taflu, eu cyfrif, eu henwi – unrhyw beth amdani!

Mae sŵn yn dod â'r darnau yn fyw go iawn, gan gael ei ddechrau mewn ffyrdd gwahanol i bob coden. Mae microffonau cysylltu lond y crateri sy'n creu adlais wrth i chi roi'ch llaw drostynt; mae'r gwrymiau yn gwneud sŵn pan fyddwch yn plygu'r esgyl; mae'r goden fflyfflyd yn gwneud sŵn fflyfflyd wrth i chi ei siglo. Archwilio drwy chwarae yw'r cyfan a chanfod bod cyffyrddiad yn creu sŵn ac y gallwch greu cerddoriaeth drwy symud y codenni!

Ariannwyd y prosiect *Codenni Cyffwrdd* gan Gyngor Celfyddydau Lloegr a Bwrdd Partneriaeth Anabledd Knowsley. Mae codenni cyffwrdd wedi eu gwneud ar gyfer y Ganolfan Blodau Gwylltion Genedlaethol yn Lerpwl mewn partneriaeth gyda mencap Lerpwl. Bydd *Codenni Cyffwrdd* i'w gweld yng Nghanolfan Gelfyddydau Llyfrgell Y Rhyl rhwng 24 Mawrth a 28 Ebrill 2012.

e. ticky_lowe@hotmail.com
<http://getclosetowildflowerseeds.blogspot.com/>
www.mencapliverpool.org.uk



Touch pods

Touch Pods set out to make the microscopic yet amazing world of wildflower seeds accessible to a wider audience, including people with learning disabilities. Lead artist **Ticky Lowe** introduces a multisensory experience full of contrast, texture, smell, sound, touch and colour.

With artists Naomi Kendrick, Mai Thomas and Ross Dalziel, we ran workshops with young people and adults with learning disabilities. We wanted to find out what it was about wildflower seeds, seen close up, that would fascinate them as much as it fascinates the scientists! We came up with a new and very exciting piece of multisensory interpretation, for the National Wildflower Centre in Liverpool, which is all about discovery and play.

The workshops began with sessions using a digital microscope. Hooked up to a projector screen we made the enlarged images of seeds as big and clear as possible for the participants to see. With audio description and the help of a growing



collection of random handling objects, with textures comparable to those found on seeds, we built up an idea of what the seed interpretation needed to be. These sessions sparked conversations about what we thought the textures reminded us of. They made people excited, enthusiastic and chatty. It brought people out of themselves - surprisingly considering it was just a collection of random objects, a yellow pepper, a clean mop head, a shell, a spiky rubber ball! So we knew that a handling collection alone is effective without any artist-made interventions.

We explored texture through a range of materials including making sound from various objects being touched, amplified with a microphone and recorded for later use. People with profound disabilities enjoyed the textures with most contrast - fluffy, spiky, cold, clammy, rubber, warm and soft on their skin would raise a smile. Everyone liked things that could be played with, worn as a wig or on a hand like a puppet. One of the artists, Naomi, had a big red suitcase which she carried her art materials in.

The sense of excitement at exploring the suitcase and discovering materials to use to make something new was something we picked up on to use for the interpretation.

We chose to build three main pods, one for each texture - craters, ridges and fluffy – and linked each texture with a coordinating smell; craters to honeycomb, ridges to lavender, fluffy to fabric softener. Each pod is also a vessel containing a handling collection of objects to do with the pod they are in - a mixture of found and domestic, non-precious, replaceable objects which can be played with - stacking, wearing, throwing, counting, naming - anything goes!

Sound really brings the pieces alive, activated in different ways for each pod. Craters are embedded with contact mics which produce an echo when you put your hand over them; ridges make a sound when you bend the fins; the fluffy pod makes a fluffy sound when you rock it. It's all about exploration through play and discovering that touch creates sound and that you can create music by moving the pods!

The *Touch Pods* project was funded by Arts Council of England and Knowsley Disability Partnership Board. *Touch pods* have been made for The National Wildflower Centre in Liverpool in partnership with mencap Liverpool. *Touch Pods* will be showing at Rhyl Library Arts Centre 24th March to 28th April 2012.

e. ticky_lowe@hotmail.com
<http://getclosetowildflowerseeds.blogspot.com/>
www.mencapliverpool.org.uk





Gweithio i greu chwarae

Bu Amgueddfa Cymru'n gweithio'n galed i greu cyfleoedd chwarae ym mhob un o'i saith amgueddfa. Bydd mwy na hanner eu hymwelwyr yn cyrraedd mewn grwpiau teuluol, a cheir dros 230,000 o ymweliadau addysgol gan ysgolion bob blwyddyn. Felly mae sicrhau bod yr amgueddfeydd yn cwrdd ag anghenion chwarae'r plant, yn yr ystyr ehangaf, o'r pwys mwyaf, fel yr eglura **Ceri Black**.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym ni wedi dod â mwy o lwybrau chwarae i'n safleoedd ac wedi arbrofi gyda gwahanol ffurfiau ar ddehongli hanes byw. Mae gwisgo dillad hanesyddol yn galluogi plant i ddychmygu eu bod yn gymeriadau o'r oes a fu neu i werthfawrogi gweithiau celf, tra bo gweithgareddau amlsynhwyraidd a rhyngweithiol (rhai traddodiadol a rhai'n seiliedig ar TG) wedi galluogi ymwelwyr o bob oedran i ymgysylltu â'n casgliadau.

Gan ddilyn llwybr mwy confensiynol, rydym ni wedi sefydlu ardaloedd chwarae yn ein caffis – gyda chyfarpar o ansawdd da sy'n gysylltiedig â'n casgliadau, ynghyd â defnyddiau ac adnoddau i hybu creadigrwydd. Mae oedolion yn aros yn hwy tra bo'u plant yn chwarae'n ddiogel, felly mae'n ein gwneud ni'n fwy deniadol fel cyrchfan ac yn gwneud synnwyr masnachol yr un pryd.

Ardaloedd Chwarae Allanol

Rydym wedi bod yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu lleoedd chwarae pwrpasol ar ein safleoedd ac, yn fwyaf diweddar, mae'r ardaloedd chwarae y tu allan i'n hamgueddfeydd wedi dod yn 'waith ar y gweill'. Wrth ystyried cyfleoedd chwarae yn y Big Pit ac Amgueddfa Werin Sain Ffagan, rydym ni wedi dod o hyd i gyfoeth o gyngor cadarn ar y We, gan gynnwys gweithgareddau Playlink a gwaith Tim Gill i'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Ymddiriedolaeth

Genedlaethol ar ddatblygu lleoedd chwarae creadigol a llawn dychmyg. Mae'n galonogol bod yr adnoddau hyn yn cynnwys astudiaethau achos o brosiectau arloesol a llwyddiannus sydd wedi cael eu creu heb gyllidebau mawr. Mae'r detholiad isod yn rhoi blas ...

Credwn y dylai lleoedd chwarae fod yn brydferth ac yn unigryw eu dyluniad, y dylent roi pleser ac ysgogi'r synhwyrau, ac y dylent fod yn ffynonellau difyrwch a syndod. Ni fydd dim byd llai yn gwneud y tro.

Mae lleoedd chwarae o safon uchel yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'u hamgylchedd naturiol, bod yn gymdeithasol neu ar eu pennau eu hunain, creu bydoedd dychmygol, rhoi prawf ar ffiniau, adeiladu a newid y byd o'u cwmpas, profi newid a pharhad, a mentro os yw'r risg yn dderbyniol. Playlink

Naws y lle

Mae creu lleoedd chwarae gwych yn grefft, ac mae'n gofyn am greadigrwydd a dychmyg. Un man cychwyn creadigol defnyddiol iawn yw ystyried sut y gall naw neu hanfod safle neu adeilad ... gael ei gipio neu ei bwysleisio, a throsglwyddo hyn i'r lle chwarae.

Gwneud y cynnig iawn

Gyda'r cynigion a'r gwahoddiadau iawn, gall plant o bob oedran a gallu ddod i fwrdd o safleoedd gydag ymdeimlad dwfn o'r hyn sy'n eu gwneud yn arbennig ac unigryw: ymdeimlad sydd gymaint yn fwy grymus gan iddo gael ei ennill drwy eu dychmyg, eu hymdrechion creadigol, eu hesboniadau a'u darganfyddiadau eu hunain.

Gwahoddiadau i archwilio, ymgysylltu a dychmygu

Drwy ddewis defnyddiau rhydd yn ofalus – blwch o sgarffiau sidan o flaen drych; bwcedi a brwshys mewn stabl gyda modelau o dda byw a chyflenwad dŵr; offer garddio a gwelyau uchel mewn gardd ffurfiol – gellir troi llecyn goddefol yn wahoddiad i archwilio, ymgysylltu a dychmygu.

Tim Gill, ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Os Ardal Chwarae yw'r Ateb, Beth yw'r Cwestiwn

Sgemâu Chwarae

Yn ystod y degawd diwethaf, bu pwyslais cynyddol ar arddulliau dysgu ymwelwyr (naill ai gweledol / clybodol / cinesthetig – neu ddealltwriaethau lluosog Gardener). Wrth ddarllen y llynyddiaeth ar Flynnyddoedd Cynnar, rwyf wedi sylwi'n arbennig ar y gwaith ar sgemâu chwarae – patrymau y mae plant yn eu hamlygu drwy eu chwarae, gan gynnwys 'cludo', 'casglu', 'amgáu', 'taflwybr' a 'chylchdroi'. (Gweler, er enghraifft, Cathy Nutbrown, *Threads of Thinking: Schemas and Young Children's Learning*). Mae'n ymddangos i mi, er ein bod ni'n ymdrechu i gynnig amrywiaeth o brofiadau sy'n darparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu, y dylem weithio gydag arbenigwyr Blynnyddoedd Cynnar a chadw'r gwahanol fathau hyn o chwarae mewn cof wrth gwrrdd ag anghenion ein hymwelwyr ifancaf.

Ceri Black yw Pennaeth Dysgu'r saith amgueddfa sy'n rhan o Amgueddfa Cymru, e-bost Ceri.Black@museumwales.ac.uk

Mae'r ardal chwarae yng nghaffi Amgueddfa Wlân Cymru yn boblogaidd gan blant ac oedolion fel ei gilydd.
The play area in the café at the National Wool Museum is popular with children and their adults.



i ddilyn...

Straeon i ddilyn...
Yn Hydref 2009, disgrifiodd Dave Penberthy brosiect uchelgeisiol Twristiaeth Dreftadaeth Cadw, a oedd yn cynnwys Cynllun Dehongli Cymru Gyfan. Hyd yma, mae deuddeg o'r straeon allweddol wedi bod yn destun cynlluniau dehongli ac maent yn cael eu defnyddio i arwain ymgeis Cadw i adnewyddu dehongli. Mae sefydliadau cyhoeddus a phreifat wedi cael cymorth ariannol gan Brosiect Twristiaeth Dreftadaeth i roi cynlluniau dehongli ar waith yn unol â'r cynlluniau hyn. Mae'r mentrau hyn yn helpu i ddarparu ymagwedd fwy cydgyssylltiedig at ddehongli ein treftadaeth.
Bydd diweddariad llawn yn y rhifyn nesaf, ond os ydych yn datblygu dehongli ar hyn o bryd, gallwch gael cipolwg ar y cynlluniau yn: cadw / newyddion / prosiectau cyllid Ewropeaidd. Y cynlluniau yw:

- Gwreiddiau a chynhanes Cymru
- Concwest y Rhufeiniad a gwladychu yng Nghymru
- Seintiau Celtaidd, lleoedd ysbrydol a phererindodau.
- Capeli, eglwysi a thirweddau mynachaudd Cymru
- Tywysogion Gwynedd
- Tywysogion Deheubarth
- Arglwyddi'r Mers Deheuol
- Cestyll a threfi caerog Edward I
- Owain Glyndŵr a'i wrthryfel
- Ymatebion artistig i'r dirwedd
- Amddiffyn y deyrnas – Sir Benfro
- Cymru : y Genedl Ddiwydiannol gyntaf

Mae Plant, wrth ddefnyddio eu dychmyg a'u creadigrwydd i wneud eu darganfyddiadau eu hunain, yn ymhél yn ddyfnach â hanes.
Children using their imagination and creativity to make their own discoveries, engage in history more deeply.



Cyfeiriadau

Arddangosfa ffotograffau

<http://www.freeplaynetwork.org.uk/playlink/exhibition/index3.htm>

Playlink

<http://www.playlink.org/publications>

'Design for Play', canllaw i greu lleoedd chwarae. Gweler tudalennau 16-20 yn <http://www.playengland.org.uk/resources/design-for-play>

Y Comisiwn Coedwigaeth

[http://www.forestry.gov.uk/pdf/fce-growing-adventure-report.pdf/\\$FILE/fce-growing-adventure-report.pdf](http://www.forestry.gov.uk/pdf/fce-growing-adventure-report.pdf/$FILE/fce-growing-adventure-report.pdf)

Y Comisiwn Coedwigaeth 'Design Guidance for Play Spaces'

[http://www.forestry.gov.uk/pdf/fce-design-guidance-for-play-spaces.pdf/\\$FILE/fce-design-guidance-for-play-spaces.pdf](http://www.forestry.gov.uk/pdf/fce-design-guidance-for-play-spaces.pdf/$FILE/fce-design-guidance-for-play-spaces.pdf)

Chwarae – yr arfer ac offer comisiynu gorau – cyhoeddiadau

<http://www.commissioningsupport.org.uk/resource-bank/children-and-families/play-best-practice.aspx>

Ymgynghori â phlant

<http://www.commissioningsupport.org.uk/pdf/fun-freedom-11-million-fair-play.pdf>

Threads of Thinking: Schemas and Young Children's Learning,

Cathy Nutbrown, Sage Publications Ltd, ISBN 9781849204644



Working at play

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales has been working hard at creating playful opportunities at all 7 of its museums. More than half the visitors arrive in family groups, alongside more than 230,000 education visits from schools each year. Making sure the museums meet the play needs of children is vitally important, as **Ceri Black** explains.

During the past few years, we've introduced more playful trails to our sites and experimented with different forms of living history interpretation. Dressing up clothes enable children to imagine themselves as historical characters or engage with artworks, whilst multisensory activities and interactives (both traditional and IT based), have aimed to enable visitors of all ages to connect with our collections.

More conventionally, we have introduced play areas into our cafés - with good quality equipment linked to our collections, together with materials and resources to encourage creativity. Adults linger longer while their children are safely and playfully occupied, so it adds to our attraction as a destination, whilst also making commercial sense.



Gall plannu naturiol, fel y twnnel helyg hwn yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, gael ei ddefnyddio i greu lleoedd chwarae bendedig.

Natural planting, like this willow tunnel at the National Botanic Garden Wales, can be used to create wonderful play spaces

External Play Areas

We've been developing a stronger focus on developing dedicated learning spaces at our sites, and most recently, the play areas outside our museums have become a 'work in progress'. In the process of considering opportunities for play at Big Pit and St Fagans: National History Museum, we've discovered a wealth of sound advice on the web, including the activities of Playlink and Tim Gill's work for the Forestry Commission and the National Trust on developing creative and imaginative play spaces. Reassuringly, these resources include case studies of innovative and successful projects which have been created without big budgets. The following extracts give a flavour...

Play spaces

We believe that playable space should be beautiful, individually designed, should please and stimulate the senses, and be sources of delight and surprise. Nothing less will do.

Quality playable spaces are those that offer children and young people opportunities to engage with their natural surroundings, be sociable and solitary, create imaginary worlds, test boundaries, construct and alter their surroundings, experience change and continuity, and take acceptable levels of risk. Playlink

The spirit of the place

Creating fine play space is an art, and takes creativity and imagination. One very useful creative starting point is to think about how the spirit or essence of a site or property ... might be captured or highlighted, and to bring this out in playful ways.

Making the right offer

